*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran *** o Ddeddf ***, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 202X Rhif (Cy. )

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Cymru) 202X

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 29 o Ddeddf Plant 2004 ac maent yn gymwys i sefydlu a gweithredu cronfa ddata plant sy'n colli addysg ("PCA") yng Nghymru. Daw'r Rheoliadau i rym ar XXX.

Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu a gweithredu cronfa ddata PCA (rheoliad 3) a fydd yn cynnwys yr wybodaeth a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau mewn cysylltiad â phlant o oedran ysgol gorfodol sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol.

Bydd yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol a chontractwr gwasanaethau meddygol cyffredinol yng Nghymru ddatgelu i awdurdod lleol unrhyw wybodaeth a bennir yn yr Atodlen ac a gedwir ganddynt (rheoliad 4). Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr wybodaeth yn y gronfa ddata yn gywir (rheoliad 5).

Mae rheoliadau 6 i 11 yn manylu ar yr achlysuron pan fydd rhaid dileu enw plentyn o'r gronfa ddata PCA.

Mae rheoliad 12 yn manylu ar bwy y caniateir iddo gael mynediad at y gronfa ddata ac ar gyfer pa swyddogaethau addysg y gellid ei defnyddio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: [ ], Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran *** o Ddeddf ***, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 202X Rhif (Cy. )

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Cymru) 202X

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 29 a 66 o Ddeddf Plant 2004(**1**) [a chyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol(**2**)], yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Cymru) 202X.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XX.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "addysg addas" yr un ystyr â "suitable education" yn adran 436A(3) o Ddeddf 1996;

mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs*") yr un ystyr ag yn adran 2 o Ddeddf 2018;

(**1**) 2004 p. 31.
(**2**) Gweler adran 29(12) o Ddeddf 2004.

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, ac eithrio pan gyfeirir yn benodol at awdurdod lleol yn Lloegr;

ystyr “cofnod PCA” (“*CME record*”) mewn perthynas â phlentyn yw’r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gronfa ddata PCA ac sy’n ymwneud â’r plentyn hwnnw;

ystyr “contract GMC” (“*GMS contract*”) yw contract gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) (contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol: rhagarweiniol);

ystyr “contractwr GMC” (“*GMS contractor*”) yw parti i gontract GMC, heblaw’r Bwrdd Iechyd Lleol;

mae i “darpariaeth ddysgu ychwanegol” (“*additional learning provision*”) yr un ystyr ag yn adran 3 o Ddeddf 2018;

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996(**2**);

ystyr “Deddf 2018” (“*2018 Act*”) yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**3**);

ystyr “disgybl cofrestredig” (“*registered pupil*”) yw plentyn sydd wedi ei gofrestru yn ddisgybl mewn ysgol mewn cofrestr a gedwir o dan adran 434 o Ddeddf 1996;

ystyr “y gronfa ddata PCA” (“*the CME database*”) yw’r gronfa ddata sydd wedi ei sefydlu a’i gweithredu, neu sydd i’w sefydlu a’i gweithredu, gan awdurdod lleol o dan adran 29 o Ddeddf Plant 2004;

ystyr “PCA” (“*CME*”) yw plant sy’n colli addysg;

ystyr “plentyn” (“*child*”) yw person o oedran ysgol gorfodol o fewn ystyr adran 8 o Ddeddf 1996;

mae i “preswylio fel arfer” (“*usually resident*”) yr un ystyr ag yn rheoliad 2(2) a (3) o Reoliadau’r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009(**4**);

ystyr “rhiant” (“*parent*”) yw unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn (o fewn ystyr adran 3 o Ddeddf Plant 1989(**5**)) neu sydd â gofal am y plentyn ar unrhyw adeg;

mae i “ysgol” yr un ystyr â “school” yn adran 4 o Ddeddf 1996.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at berson sydd wedi ei gyflogi yn cynnwys person sydd

---

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) 1996 p. 56.
(**3**) 2018 dccc. 2.
(**4**) O.S. 2009/1511 (Cy. 147).
(**5**) 1989 p. 41.

wedi ei gyflogi pa un ai o dan gontract gwasanaeth neu gontract ar gyfer gwasanaethau, a pherson sydd wedi ei secondio i'r awdurdod lleol o dan sylw.

**Sefydlu cronfa ddata PCA**

**3.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol sefydlu a gweithredu cronfa ddata PCA.

(2) Pan fodlonir yr amodau ym mharagraff (3) mewn perthynas â phlentyn penodol, rhaid i'r gronfa ddata PCA gynnwys yr wybodaeth a nodir yn yr Atodlen ac sydd ar gael i'r awdurdod lleol mewn perthynas â'r plentyn hwnnw.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod y plentyn yn preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol,

(b) nad yw'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig, ac

(c) ei bod yn ymddangos i'r awdurdod lleol nad yw'r plentyn yn cael addysg addas, neu nad yw'r plentyn o bosibl yn cael addysg addas.

**Dyletswydd Bwrdd Iechyd Lleol a chontractwr GMC i ddatgelu**

**4.** Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol a chontractwr GMC ddatgelu i awdurdod lleol, o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 1 Chwefror bob blwyddyn, yr wybodaeth a bennir ym mharagraffau 1 i 4 o'r Atodlen a ddelir ganddo ac sy'n ymwneud â phlentyn sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

**Y weithdrefn ar gyfer sicrhau cywirdeb gwybodaeth yn y gronfa ddata PCA**

**5.** Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol fod cofnod PCA y mae'n gyfrifol amdano yn anghywir neu'n anghyflawn, neu y gall fod yn anghywir neu'n anghyflawn, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i gywiro neu gwblhau'r cofnod.

**Y weithdrefn ar gyfer dileu cofnod PCA**

**6.** Pan ddaw awdurdod lleol yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA bellach yn preswylio fel arfer yn ardal awdurdod lleol arall neu awdurdod lleol yn Lloegr ("yr awdurdod lleol derbyn"), neu fod hynny'n debygol o ddigwydd, rhaid iddo—

(a) hysbysu'r awdurdod lleol derbyn am gofnod PCA y plentyn o fewn 28 o ddiwrnodau i'r dyddiad y daeth yn ymwybodol, a

(b) dileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r plentyn adael ei ardal.

**7.** Pan ddaw awdurdod lleol yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA wedi gadael ei ardal ac nad yw'n gwybod ymhle y mae'r plentyn bellach yn preswylio fel arfer, rhaid i'r awdurdod lleol ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**8.** Pan ddaw awdurdod lleol yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA bellach yn ddisgybl cofrestredig, rhaid i'r awdurdod lleol ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**9.** Pan fo awdurdod lleol wedi ei fodloni bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA yn cael addysg addas, rhaid i'r awdurdod lleol ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**10.** Pan ddaw awdurdod lleol yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA wedi marw, rhaid i'r awdurdod lleol ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**11.** Pan ddaw awdurdod lleol yn ymwybodol bod plentyn y mae ei enw wedi ei gynnwys yn y gronfa ddata PCA yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol, rhaid i'r awdurdod lleol ddileu cofnod PCA y plentyn hwnnw o'r gronfa ddata PCA cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Mynediad at y gronfa ddata PCA**

**12.**—(1) Dim ond person sydd wedi ei gyflogi mewn perthynas ag arfer gan neu ar ran awdurdod lleol y swyddogaethau a bennir ym mharagraff (2) y caniateir iddo gael mynediad at y gronfa ddata PCA at ddiben ychwanegu neu ddarllen gwybodaeth.

(2) Y swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw swyddogaethau o dan—

(a) Rhan 6 (derbyniadau ysgol, presenoldeb yn yr ysgol a ffioedd ysgol) o Ddeddf 1996,

(b) adran 175 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) (dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â lles plant), neu

(c) Rhan 2 (anghenion dysgu ychwanegol) o Ddeddf 2018.

*Enw*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

(**1**) 2002 p. 32.

Dyddiad

## YR ATODLEN Rheoliadau 3 a 4

## Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gronfa ddata PCA

**1.** Enw'r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol).

**2.** Cyfeiriad y plentyn (neu ei gyfeiriad hysbys diwethaf), gan gynnwys cod post.

**3.** Dyddiad geni'r plentyn.

**4.** Rhywedd y plentyn neu, os nad yw rhywedd y plentyn wedi ei bennu, ddatganiad i'r perwyl hwnnw.

**5.** Enw, cyfeiriad a chod post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost holl rieni'r plentyn.

**6.** Enw a chyfeiriad y person sy'n darparu'r cyfan neu ran o'r addysg.

**7.** Unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod gan y plentyn ac unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gelwir amdani.